



Ordinhad 11

Y Cyngor: Aelodau'r Senedd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 11

Y CYNGOR: AELODAU'R SENEDD

1. Aelodau'r Senedd

1. Etholir i'r Cyngor hyd at ddau aelod o staff academiaidd (yn ôl diffiniad Ystatud 1), a etholir gan ac o blith aelodau'r Senedd, am gyfnod o dair blynedd.
2. Bydd Clerc y Cyngor yn rhoi gwybod i aelodau'r Senedd am leoedd gweigion a gwahodd enwebiadau, gan roi cymaint o rybudd am y lleoedd gweigion a'r dyddiad cau i dderbyn enwebiadau ag sydd yn rhesymol er mwyn gallu cynnal etholiad ac i'r Senedd gadarnhau'r canlyniadau erbyn ei gyfarfod diwethaf cyn i'r lleoedd ddod yn wag.
3. Os ceir mwy o enwebiadau nag o leoedd gweigion cynhelir etholiad trwy bleidlais gudd. Pleidleisir trwy bleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd yr enwebiadau a gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yn cael eu hethol i'r Senedd, yn ôl nifer y lleoedd gweigion.
4. Os yw aelod o'r Senedd yn rhoi'r gorau i'w aelodaeth, bydd y lle gwag dros-dro o'r fath yn cael ei lenwi gan gyfarfod nesaf y Senedd. Wrth enwebu ac ethol personau i leoedd gweigion dros-dro dilynir y drefn a nodir yn 1.2 ac 1.3. Os oes lleoedd gweigion am ddwy flynedd ac am flwyddyn, y person(au) sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau a etholir am ddwy flynedd.
5. Bydd cynrychiolwyr y Senedd ar y Cyngor yn parhau'n aelodau cyhyd â'u bod yn aelodau o'r Senedd. Byddant yn aelodau tan ddiwedd y drydedd flwyddyn ar ôl eu penodi neu pa ddyddiad cynharach bynnag a fydd ymhob achos yn cael ei bennu gan y Senedd i ddiben cylchdroi aelodau.

2. Ailethol

Bydd aelod o'r Senedd ar dir i'w ailethol am gyfnod pellach o dair blynedd, ac ar ôl cwblhau unrhyw gyfnod pellach yn aelod neu wrth ymddeol, ni fydd ar dir i'w ailethol i'r un math o aelodaeth tan i gyfnod o dair blynedd fynd heibio.